TAFLEN FFEITHIAU AM SEIBERDROSEDDU

Lluniwyd ar y cyd gan The Cyber Helpline a Friends Against Scams (Safonau Masnach Cenedlaethol)

Beth yw Seiberdroseddu a Throseddu a Hwylusir gan Dechnoleg Ddigidol?

Mae seiberdrosedd yn weithred anghyfreithlon a gyflawnir ar y rhyngrwyd neu drwy ddefnyddio dyfais ddigidol, fel cyfrifiadur neu ffôn clyfar. Gall y rhyngrwyd neu'r dyfeisiau hyn fod yn gyfrwng i gyflawni'r drosedd, yn darged y drosedd, neu'n fan lle mae'r drosedd yn digwydd. Mae enghreifftiau cyffredin yn cynnwys hacio ac ymosodiadau meddalwedd wystlo.

Mae troseddu a hwylusir gan dechnoleg ddigidol yn cyfeirio at droseddau sy'n haws eu cyflawni neu'n fwy eang eu cwmpas drwy ddefnyddio'r rhyngrwyd neu ddyfeisiau digidol. Gall y rhain gynnwys twyll digidol, megis sgamiau buddsoddi a dwyn hunaniaeth, yn ogystal â niwed ar-lein, fel aflonyddu ar-lein a seiberstelcio.

Mae seiberdroseddu a throseddu a hwylusir gan dechnoleg ddigidol yn broblem eang a chynyddol. Mae 58% o'r holl droseddau yng Nghymru a Lloegr yn digwydd ar-lein neu'n cael eu hwyluso gan dechnoleg ddigidol, ac effeithiwyd ar dros 5 miliwn o ddioddefwyr yn 2025.

Pwy sydd mewn Perygl?

- Gall unrhyw un fod yn ddioddefwr. Nid yw seiberdroseddu'n gwahaniaethu ar sail oedran, cefndir na gallu technegol.
- Mae rhai grwpiau'n fwy tebygol o gael eu targedu, megis oedolion hŷn a phobl sy'n wynebu heriau emosiynol neu ariannol.
- Yn aml, mae dioddefwyr yn cael eu targedu drwy dactegau soffistigedig ac pherswadol, nid am eu bod yn ddiniwed neu'n rhy barod i gredu eraill.
- Gall ofn stigma wneud pobl yn fwy agored i niwed, gan y gall dioddefwyr oedi cyn ceisio cymorth neu roi gwybod am ddigwyddiadau.

Mathau o Seiberdroseddau ac Is-gategorïau

Twyll a Sgamiau
• **E-byst Sgam** | Gelwir hyn hefyd yn we-rwydo (“Phishing”): e-byst ffug sydd wedi’u llunio i edrych fel pe baent wedi dod oddi wrth sefydliad dibynadwy, fel banc neu asiantaeth lywodraethol, gyda’r nod o roi pwysau ar ddioddefwyr i ddatgelu gwybodaeth bersonol neu glicio ar ddolen faleisus. • **Negeseuon Testun Sgam** | Gelwir hyn hefyd yn we-rwydo drwy negeseuon testun (“Smishing”): yr un peth â gwe-rwydo, ond drwy negeseuon testun (SMS) yn hytrach nag e-bost. • **Galwadau Sgam** | Gelwir hyn hefyd yn we-rwydo drwy alwadau llais (“Vishing”): galwadau llais gan bobl sy’n esgus cynrychioli sefydliadau dibynadwy, fel banciau, Cyllid a Thollau EF (HMRC), yr heddlu neu wasanaethau cymorth technegol, er mwyn dylanwadu ar ddioddefwyr i roi manylion personol neu arian iddynt. • **Twyll Rhamant** | Gelwir hyn hefyd yn “Catfishing”: twyll lle mae troseddwr yn creu hunaniaeth ffug ar-lein i feithrin perthynas ramantus a dylanwadu ar ddioddefwyr i anfon arian neu anrhegion dros amser. • **Twyll Buddsoddi ac Arian Crypto** | Twyll sy’n cynnwys llwyfannau neu gynlluniau ffug i roi pwysau ar ddioddefwyr i drosglwyddo arian gan gredu eu bod yn buddsoddi. • **Twyll Siopa Ar-lein** | Hysbysebion neu wefannau ffug sy’n camarwain pobl ynghylch cynnyrch neu wasanaeth. Cymerir taliad a manylion personol, ond ni ddarperir unrhyw beth. • **Twyll Cerdyn Ar-lein |** Defnyddio manylion cerdyn heb awdurdod i brynu nwyddau neu wasanaethau drwy dwyll ar-lein. • **Twyll Recriwtio** | Hysbysebion neu gyfleoedd swyddi ffug a ddefnyddir i gael arian neu ddata personol gan bobl sy’n chwilio am waith. • **Twyll Benthyciadau** | Cynigion benthyciadau ffug a ddefnyddir i gael ffioedd ymlaen llaw gan ddioddefwyr sy’n ceisio cael credyd**.**
Troseddau sy’n Ymwneud â Chyfrifon a Hunaniaeth
• **Cymryd Rheolaeth dros Gyfrif |** Gelwir hyn hefyd yn gyfrif wedi’i hacio (Hacked Account): cael mynediad heb awdurdod at gyfrifon ar-lein, fel cyfrifon e-bost, bancio, cyfryngau cymdeithasol neu gemau. • **Dwyn Hunaniaeth |** Dwyn gwybodaeth bersonol, fel enwau, manylion banc neu gyfrineiriau, i agor cyfrifon neu brynu nwyddau neu wasanaethau drwy dwyll.

- **Cyfnewid SIM** | Cael rheolaeth dros gyfrif SIM ffôn symudol a throsglwyddo'r berchnogaeth, ynghyd â'r rhif ffôn, i SIM sydd o dan reolaeth yr ymosodwr.
- **Mynediad at Gyfrif heb Awdurdod** | Gelwir hyn hefyd yn "Fraping": cael mynediad at gyfrif cyfryngau cymdeithasol heb ganiatâd a chyhoeddi cynnwys sy'n achosi gofid i berchennog y cyfrif neu'n niweidio ei enw da.

Meddalwedd Faleisus a Chribddeiliaeth

- **Meddalwedd Faleisus (Malware)** | Meddalwedd sydd wedi'i chynllunio i niweidio dyfeisiau, dwyn data neu gael mynediad heb awdurdod at systemau.
- **Meddalwedd Wystlo (Ransomware) |** Meddalwedd faleisus sy'n cloi ffeiliau neu ddyfeisiau ac yn mynnu taliad i'w datgloi.
- **Cribddeiliaeth neu Flacmel gan Ddefnyddio Delweddau Personol o Natur Rywiol |** Gelwir hyn hefyd yn "Sextortion": math o flacmel lle mae troseddwyr yn cael gafael ar ddelweddau neu fideos personol o natur rywiol, neu'n creu rhai ffug, ac yn bygwth eu rhannu oni bai bod y dioddefwr yn rhoi arian neu ragor o gynnwys iddynt.

Aflonyddu a Cham-drin Ar-lein

- **Seiberstelcio |** Gwylio, monitro neu gysylltu â rhywun yn barhaus ar-lein, heb i'r person ddymuno hynny, gyda'r bwriad o achosi ofn neu ofid.
- **Aflonyddu Ar-lein |** Gelwir hyn hefyd yn seiberfwlio ("Cyberbullying"): ymddygiad camdriniol, bygythiol neu ddychrynllyd sy'n cael ei gyfeirio dro ar ôl tro at unigolyn ar-lein.
- **Cam-drin drwy Ddelweddau Personol o Natur Rywiol |** Gelwir hyn hefyd yn bornograffi dial ("Revenge Porn"): rhannu, neu fygwth rhannu, delweddau personol o natur rywiol heb gydsyniad y dioddefwr.
- **Proffiliau Ffug |** Creu hunaniaethau ffug ar-lein i aflonyddu ar berson arall, esgus bod yn berson arall neu achosi gofid iddo.
- **Cynnwys Amrhiodol |** Dod i gysylltiad â araith casineb, deunydd eithafol neu gynnwys niweidiol ar-lein, gan gynnwys cynnwys sy'n targedu plant neu ddefnyddwyr sy'n agored i niwed.
- **Meithrin Perthynas Amhriodol Ar-lein |** Oedolyn yn meithrin perthynas o ymddiriedaeth â phlentyn ar-lein er mwyn camfanteisio arno neu ei gam-drin. Os ydych yn pryderu am blentyn, cysylltwch â'r heddlu neu CEOP ar unwaith drwy ceop.police.uk.

• **Gwyliadwriaeth Ddigidol |** Dyfeisiau gwrando cudd, camerâu a dyfeisiau tracio: gosod dyfeisiau gwrando, camerâu neu ddyfeisiau tracio lleoliad yn gudd ar ddyfeisiau neu eiddo rhywun heb ei gydsyniad.
Torri Diogelwch Data a Phreifatrwydd
• **Tor Diogelwch Data** | Pan fydd cwmni neu ddarparwr gwasanaeth yn cael ei hacio neu'n gwneud camgymeriad sy'n datgelu data personol defnyddwyr i seiberdroseddwyr neu'r cyhoedd. • **Datgelu Data Personol neu Sensitif heb Awdurdod** | Datgelu gwybodaeth bersonol neu sensitif heb awdurdod, gan arwain at golli rheolaeth dros ddata preifat a'r posibilrwydd o niwed i'r unigolyn. Gall hyn gynnwys rhannu gwybodaeth yn ddamweiniol, er enghraifft drwy gyhoeddi cynnwys preifat yn gyhoeddus, neu ddatgelu gwybodaeth yn fwriadol, fel datgelu cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhywedd rhywun heb ei gydsyniad ("outing"), neu gyhoeddi gwybodaeth bersonol am rywun heb ei ganiatâd ("doxxing").

Ffactorau Cyffredin sy'n Hwyluso Seiberdroseddu

1	**Diogelwch cyfrifon annigonol:** mae defnyddio cyfrineiriau gwan neu ailddefnyddio cyfrineiriau, a pheidio â defnyddio dilysu dau ffactor, yn ei gwneud yn haws i ymosodwyr gymryd rheolaeth dros gyfrifon.
2	**Meddalwedd a dyfeisiau sydd heb eu diweddaru:** mae gwendidau diogelwch nad ydynt wedi'u cywiro yn gadael systemau'n agored i ymosodiadau.
3	**Clicio ar ddolenni heb eu gwirio:** prif lwybr i ymosodiadau gwe-rwydo a meddalwedd faleisus.
4	**Rhannu gormod ar y cyfryngau cymdeithasol:** mae hyn yn rhoi manylion personol i ymosodwyr y gallant eu defnyddio i dargedu dioddefwyr. Gellir defnyddio gwybodaeth breifat i gamfanteisio ar rywun neu ei flacmelio.
5	**Negeseuon neu alwadau annisgwyl:** gall cyfathrebiadau sy'n dal unigolion yn annisgwyl eu hysgogi i wneud penderfyniadau brysiog.

6	**Creu ymdeimlad o frys a dylanwadu ar emosiynau:** mae ymosodwyr yn mynd ati'n fwriadol i ennyn ofn, cariad neu drachwant er mwyn rhoi pwysau ar ddioddefwyr i wneud penderfyniadau cyflym.
7	**Ymddiried mewn dieithriaid:** gall credu dieithriaid yn rhy hawdd agor y drws i beirianneg gymdeithasol, sef defnyddio dulliau seicolegol i ddylanwadu ar rywun i ddatgelu manylion mewngofnodi neu wybodaeth sensitif.
8	**Perthnasoedd:** mae troseddwyr yn camfanteisio ar emosiynau a chysylltiadau personol i ddylanwadu ar bobl a'u twyllo.
9	**Buddsoddiadau:** defnyddir addewidion o wneud arian yn gyflym i gamfanteisio ar ddioddefwyr.
10	**Diffyg ymwybyddiaeth:** mae peidio ag adnabod seiberdroseddu yn gwneud pobl yn fwy agored i niwed.

Beth i'w Wneud os Ydych wedi Cael Eich Targedu

1. **Stopiwch -** peidiwch ag anfon rhagor o arian na data, na rhoi rhagor o fynediad at gyfrifon neu ddyfeisiau.
2. **Diogelwch -** newidiwch gyfrineiriau a galluogwch ddilysu dau ffactor (2FA) ar y cyfrifon yr effeithiwyd arnynt.
3. **Banc -** cysylltwch â'ch banc ar unwaith os oes arian wedi'i ddwyn neu mewn perygl.
4. **Rhowch wybod –** adroddwch y mater i Report Fraud.
5. **Cymorth –** gofynnwch am gymorth; nid ydych ar eich pen eich hun, ac nid eich bai chi ydyw.

Byddwch yn ymwybodol: os ydych wedi dioddef seiberdrosedd neu dwyll, efallai y cewch eich targedu eto gan unigolion neu gwmnïau sy'n honni y gallant adennill yr arian rydych wedi'i golli, yn aml am ffi ymlaen llaw. Gelwir hyn yn dwyll adennill arian, ac mae'n sgam ynddo'i hun. Ni fydd unrhyw sefydliad dilys yn gwarantu y gellir adennill arian a gollwyd nac yn codi ffi arnoch am wneud hynny. Os bydd rhywun yn cysylltu â chi fel hyn, peidiwch â thalu a rhowch wybod i Report Fraud.

Sut i Adrodd

1. **Cysylltwch â Report Fraud —** 0300 123 2040 | reportfraud.police.uk/reporting-a-fraud/
2. **Cysylltwch â'ch banc neu ddarparwr taliadau** — cyn gynted â phosibl os oes arian yn gysylltiedig â'r digwyddiad.
3. **Rhowch wybod i'r platfform lle digwyddodd y drosedd —** er enghraifft, gwasanaeth cyfryngau cymdeithasol, marchnad ar-lein neu ddarparwr e-bost.

Ble i Gael Cymorth

- **The Cyber Helpline -** thecyberhelpline.com **-** Cymorth am ddim am hacio, sgamiau a bygythiadau ar-lein, i unigolion ac unig fasnachwyr sy'n 13 oed neu'n hŷn.
- **Friends Against Scams -** friendsagainstscams.org.uk - Codi ymwybyddiaeth o sgamiau a'u hatal, ar gyfer unigolion, cymunedau a gweithwyr proffesiynol.
- **Cyngor ar Bopeth -** citizensadvice.org.uk - Cyngor cyffredinol, gan gynnwys cyngor ar sgamiau a thwyll, sydd ar gael i unrhyw un yn y DU, yn rhad ac am ddim ac yn gyfrinachol.
- **Age UK -** www.agecymru.wales - Codi ymwybyddiaeth o sgamiau, eu hatal a chynorthwyo dioddefwyr, ar gyfer pobl sy'n 50 oed neu'n hŷn a'r rhai sy'n eu cefnogi.

Cefnogi Rhywun Arall

- Dangoswch ddealltwriaeth heb feio — mae dioddefwyr yn aml yn teimlo embaras neu gywilydd.
- Gwrandewch yn gyntaf; peidiwch â dweud "Fe ddywedais i wrthyt" na chwestiynu eu barn.
- Helpwch nhw i gymryd y camau ymarferol a restrir uchod.
- Cyfeiriwch nhw at The Cyber Helpline neu Friends Against Scams i gael rhagor o gymorth.
- Mae Friends Against Scams yn rhedeg rhaglen SCAMchampion, sy'n hyfforddi unigolion i helpu i amddiffyn eraill yn eu cymunedau. Ystyriwch ymuno â'r rhaglen i helpu i ddiogelu pobl yn eich cymuned.

***Ymwadiad**: Datblygwyd y daflen ffeithiau hon ar y cyd gan The Cyber Helpline a Friends Against Scams i ddarparu canllawiau cywir a hygyrch i'r cyhoedd. Er bod pob ymdrech wedi'i gwneud i sicrhau bod yr wybodaeth yn gywir ar adeg ei chyhoeddi, nid yw'r rhestrau a ddarperir yn hollgynhwysfawr, a gall rhai troseddau orgyffwrdd. Nid yw'r naill sefydliad na'r llall yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw hepgoriadau neu wallau. Os ydych yn credu eich bod wedi dioddef trosedd, cysylltwch â'r awdurdodau perthnasol.*